**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Troseddau a Phlismona**

**Ymateb Lywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Rhagfyr 2025**

Ym mis Tachwedd 2025, cyflwynodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  (“y Pwyllgor”) ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) (“y Memorandwm") ar y Bil Troseddu a Phlismona. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhelliad.

Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i’r argymhelliad.

## Cyflwyniad

Cyflwynwyd y Bil Troseddu a Phlismona ("y Bil”) yn Nhŷ’r Cyffredin, Senedd y Deyrnas Unedig ar 25 Chwefror 2025.

Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer y Bil yw:

- mynd i'r afael â'r epidemig o drais difrifol, cam-drin plant yn rhywiol a thrais yn erbyn menywod a merched sy'n fefl ar ein cymdeithas
- diogelu'r cyhoedd a chanol ein trefi rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau manwerthu a dwyn o siopau
- rhoi i'r heddlu ac eraill y pwerau y mae arnynt eu hangen i frwydro yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu a therfysgaeth
- ailennyn hyder y cyhoedd mewn plismona a'r system cyfiawnder troseddol ehangach

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflawni'r amcanion pwysig hyn a gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i'r perwyl hwn ar 28 Mawrth 2025.

Ar 2 Gorffennaf 2025, gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) mewn perthynas â gwelliannau i'r Bil a gyflwynwyd i'w ystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin.

Mae gweld bod y Pwyllgor yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y’i nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd arnynt yn unol â Rheol Sefydlog 29, yn rhywbeth i'w groesawu.

Diolch i aelodau’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad am eu hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Troseddu a Phlismona. Rwyf wedi amlinellu fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

**Ymateb i’r argymhelliad**

**Argymhelliad 1**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi rhagor o fanylion am ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â'r Bil yn ystod cyfnod ei ddatblygu, gan gynnwys pryd y dechreuodd yr ymgysylltiad hwn.**

---

Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd rhai darpariaethau yn y Bil presennol yn rhan o'r Bil Cyfiawnder Troseddol yn flaenorol. Ni wnaeth y Bil hwnnw gwblhau ei daith trwy Senedd y DU oherwydd y cyhoeddiad am yr Etholiad Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2024 a diddymu'r Senedd ar gyfer yr etholiad honno.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ar lefel Weinidogol a swyddogol, ynghylch y Bil cyn ei gyflwyno.

Ar 6 Rhagfyr 2024, cefais lythyr cyfrinachol gan y cyn-Weinidog Plismona yn amlinellu'r mesurau o fewn y Bil yr oedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn disgwyl iddynt fod yn gymwys i Gymru.

Rhannwyd drafft o'r Bil yn gyfrinachol ar 29 Ionawr 2025, cyn i'r Bil gael ei gyflwyno ar 25 Chwefror 2025.

Mae'r ymgysylltiad wedi cynnwys cyfarfodydd rheolaidd rhwng gwahanol swyddogion yn Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru cyn ac yn ystod taith y Bil.